# CARDIFF CASTLE
# CASTELL CAERDYDD



# Welcome
# Croeso



Cardiff Castle is one of the most exclusive wedding venues in Wales and is the perfect place to stage the most memorable day of your life.

Its enchanting fairytale towers conceal elaborate and splendid interiors of unique architecture, magnificent décor and breathtaking elegance. There are many locations and options for you to consider, whether you have an intimate group of up to 30 or 150 wedding guests. The splendid grounds offer a perfect setting for your photographs too.

Our friendly, experienced team will be pleased to give you all the advice you need and on the day we will make you and your guests feel at home in this stunning setting. A tailor-made service with many menu options for you to choose is offered by our in-house team.



Castell Caerdydd yw un o'r lleoliadau  mwyaf moethus ac unigryw yng Nghymru ar gyfer priodas a dyma'r lle perffaith i gynnal un o ddiwrnodau pwysicaf eich bywyd.

Mae'r tyrau tylwyth teg cyfareddol yn cuddio ystafelloedd ysblennydd gyda phensaernïaeth unigryw, addurniadau godidog a cheinder anhygoel. Mae gennym amryw leoliadau ac opsiynau i chi eu hystyried, p'un a oes gennych 30 neu 150 o westeion. Ac mae'r tiroedd godidog yn cynnig cefnlen berffaith i'ch lluniau.

Bydd ein tîm profiadol a chyfeillgar yn hapus i roi'r holl gyngor sydd ei angen arnoch ar y diwrnod a byddwn yn sicrhau eich bod chi a'ch gwesteion yn teimlo'n gartrefol yn y lleoliad trawiadol hwn. Mae ein tîm yn cynnig gwasanaeth unigryw gyda sawl dewis o ran bwydlen.



# The Banqueting Hall
# Y Neuadd Wledda

This magnificent hall was used by the Bute family when in residence for grand entertaining. With high ceilings and atmospheric lighting, this room is unrivalled and provides a spectacular setting for your wedding and wedding breakfast. It is the largest room in the Castle Apartments and the decoration is typical of the genius-architect Burges' flamboyant style, who along with the 3rd Marquess of Bute transformed Cardiff Castle into a Welsh Victorian Camelot.

A drinks reception can be served in the Library and guests can then take the spectacular Octagon stairs to the Banqueting Hall. The Banqueting Hall is licensed for weddings and civil partnerships.





Defnyddiwyd y neuadd odidog hon gan y teulu Bute i groesawu gwesteion. Gyda nenfydau uchel a goleuadau atmosfferig, mae'r ystafell hon yn gwbl unigryw ac mae'n cynnig lleoliad ysblennydd i'ch priodas a'ch brecwast priodas. Dyma ystafell fwyaf y Castell ac mae'r addurniadau godidog yn nodweddiadol o steil yr athrylith o bensaer, Burges, a drawsnewidiodd Gastell Caerdydd, gyda chymorth 3ydd Ardalydd Bute, yn Gamelot Fictoraidd Cymreig.

Gellir gweini derbyniad diodydd yn y Llyfrgell ac yna gall y gwesteion gerdded i fyny'r grisiau Octagon ysblennydd i'r Neuadd Wledda. Mae'r Neuadd Wledda wedi'i thrwyddedu i gynnal priodasau a phartneriaethau sifil.



# The Library and Drawing Room
# Y Llyfrgell a'r Ystafell Ymlacio

Complete with all its original furnishings, the Library is a lavishly decorated Burges interior with stunning detail and craftsmanship depicting the themes of learning and literature.  Guests can enjoy a drinks reception here and then take the spectacular Octagon stairs to the Banqueting Hall.

An elegant contrast to the highly ornate library, the Georgian Drawing Room dates from the 1770s and is light and spacious with magnificent views of the Castle grounds and Norman Keep.

The Drawing Room is licensed for weddings and civil partnerships.

Mae'r Llyfrgell, a'i ddodrefn gwreiddiol, yn un o ystafelloedd mawreddog Burges, gyda manylder a chrefftwaith trawiadol ar y thema dysgu a llenyddiaeth.  Gall gwesteion fwynhau derbyniad diodydd yma cyn cerdded i fyny'r grisiau Octagon ysblennydd i'r Neuadd Wledda.

Mewn cyferbyniad llwyr i'r llyfrgell fawreddog, mae'r Ystafell Ymlacio Georgaidd yn dyddio o'r 1770au ac yn olau ac yn eang gyda golygfeydd godidog o diroedd y Castell a'r Gorthwr Normanaidd.

Mae'r Ystafell Ymlacio wedi'i thrwyddedu i gynnal priodasau a phartneriaethau sifil.



# The Undercroft
# Yr Is-grofft



Dating from the 15th century, the Undercroft is one of the oldest parts of the Castle.  In the late 19th century the room was restored by the Marquesses of Bute and was known as ‘The Servants’ Hall’.  Here members of the household would take their meals in strict order of precedence.

The stone-vaulted Undercroft is hugely atmospheric, decorated with hanging banners and drapes. It can be used for all aspects of your wedding, from the ceremony to the wedding breakfast, buffet or dance. It also has its own private bar and reception area.

The Undercroft is licensed for weddings and civil partnerships.





Mae'r Is-grofft, sy'n dyddio o'r 15fed ganrif, yn un o rannau hynaf y Castell.  Cafodd yr ystafell ei hadfer ar ddiwedd y 19eg ganrif gan yr Ardalydd Bute ac fe'i gelwid yn 'Neuadd y Gweision'. Yma byddai aelodau o'r tŷ yn cael eu prydau yn nhrefn pwysigrwydd.

Mae'r Is-grofft, a’i fwâu o gerrig, yn ystafell hynod atmosfferig gyda llenni a baneri crog. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob rhan o'ch priodas, o'r seremoni i'r brecwast priodas, bwffe neu ddawns. Mae ganddo far preifat ac ardal derbyniad.

Mae'r Is-grofft wedi'i drwyddedu i gynnal priodasau a phartneriaethau sifil.



# The Guest Tower Rooms
# Ystafelloedd y Tŵr Gwesteion

At the top of the fairytale towers is an exclusive self-contained suite, once made available only to the closest friends and guests of Lord Bute. The Guest Tower Rooms today offer a superb setting for an intimate wedding or wedding breakfast of up to 30 guests.

The Oak Room is perfect for a pre-drinks reception whilst the Walnut Room is licensed for weddings and civil partnerships.





Ar frig y tyrau tylwyth teg mae ystafell foethus hunangynhwysol, a oedd, ar un adeg, ar gyfer ffrindiau agosaf a gwesteion yr Arglwydd Bute yn unig.  Heddiw, mae'r Tŵr Gwesteion yn cynnig lleoliad arbennig ar gyfer priodas neu frecwast priodas bach o hyd at 30 o westeion.

Mae'r Ystafell Dderw yn berffaith ar gyfer derbyniad diodydd tra bo'r Ystafell Collen Ffrengig wedi'i thrwyddedu ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil.



# The Interpretation Centre
# Y Ganolfan Ddehongli

The Interpretation Centre offers a contemporary setting at the heart of this historic site. Once the day visitors have departed, the centre can easily be adapted to accommodate your wedding breakfast or evening reception with room for a disco and dancing. The smart, minimalist interiors are a bold statement, with the original exposed Roman wall a focal point of the ground floor. Panoramic views of the Castle grounds and Norman Keep offer a superb backdrop for photographs.

Mae'r Ganolfan Ddehongli yn cynnig lleoliad cyfoes yng nghalon y safle hanesyddol hwn. Ar ôl i'r ymwelwyr dydd ymadael, gellir addasu'r ganolfan ar gyfer eich brecwast priodas neu dderbyniad gyda'r nos gyda lle ar gyfer disgo a dawnsio. Mae'r ystafelloedd cyfoes hyn yn siwr o dynnu'ch sylw gyda'r wal Rufeinig wreiddiol fel canolbwynt y llawr gwaelod.  Mae golygfeydd panoramig o dir y Castell a'r Gorthwr Normanaidd yn gefndir gwych i ffotograffau.



# Delicious Food
# Bwyd Blasus



Our award-winning chefs take pride in developing creative menus which showcase the finest food from the very best ingredients.  We can offer fully flexible menu packages that will suit your every need and our dedicated event co-ordinators will be happy to assist you in arranging all the little extras that will make your wedding a truly special occasion.





Mae ein cogyddion llwyddiannus a phrofiadol yn ymfalchïo mewn datblygu bwydlenni creadigol sy'n cynnwys y bwydydd gorau a wnaed gan ddefnyddio'r cynhwysion gorau. Gallwn gynnig pecynnau bwydlen hyblyg a fydd yn diwallu eich anghenion yn llwyr, a bydd ein cydlynwyr digwyddiadau yn hapus i'ch helpu i drefnu'r holl bethau bach ychwanegol a fydd yn gwneud eich priodas yn ddigwyddiad arbennig iawn.

| | Banqueting Hall Y Neuadd Wledda | Library Y Llyfrgell | Drawing Room Yr Ystafell Groeso | Undercroft Yr Is-grofft | Guest Tower Rooms Y Tŵr Gwesteion | Interpretation Centre Y Ganolfan Ddehongli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedding Ceremony or Civil Partnership Seremoni Priodas neu Bartneriaeth Sifil | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Wedding Breakfast Brecwast Priodas | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Drinks Reception Derbyniad Diodydd | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Wedding Buffet Bwffe Priodas | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dancing Dawnsio | | | | ✓ | | ✓ |
| Capacity Capasiti | Max 100 guests Mwyafswm 100 o westeion | Max 70 guests or 100 if combined with the Drawing Room Mwyafswm 70 o westeion neu 100 gyda'r Ystafell Groeso | Max 50 guests Mwyafswm 50 o westeion | Max 100 guests Mwyafswm 100 o westeion | Max 30 guests Mwyafswm 30 o westeion | Max 150 guests Mwyafswm 150 o westeion |
| Availability Ar gael | After 5pm (1st Nov - 28th Feb) Ar ôl 5pm (1 Tach - 28 Chwef) | After 5pm (1st Nov - 28th Feb) Ar ôl 5pm (1 Tach - 28 Chwef) | After 5pm (1st Nov - 28th Feb) Ar ôl 5pm (1 Tach - 28 Chwef) | All day Trwy'r dydd | All day Trwy'r dydd | After 7pm Ar ôl 7pm |
| | After 6pm (1st March - 31st Oct) Ar ôl 6pm (1 Mawrth - 31 Hyd) | After 6pm (1st March - 31st Oct) Ar ôl 6pm (1 Mawrth - 31 Hyd) | After 6pm (1st March - 31st Oct) Ar ôl 6pm (1 Mawrth - 31 Hyd) | | | |

## Photography / Ffotograffiaeth

With thanks to Linda and Stefan Davies (Page 1), Amy Evans (Page 3) for the use of the photographs taken by Sian Trenberth photography at www.sian-trenberth.com and Rachael and Adam Ryan (Page 2) for the use of photographs taken by Christabel photography www.christabelphotography.co.uk. With thanks to Alison Bentley for supplying the flowers www.bentleyflowers.com

Diolch i Linda a Stefan Davies (Tudalen 1), Amy Evans (Tudalen 3) am gael defnyddio'r ffotograffau a dynnwyd gan Sian Trenberth photography www.sian-trenberth.com a Rachael ac Adam Ryan (Tudalen 2) am gael defnyddio'r ffotograffau a dynnwyd gan Christabel photography www.christabelphotography.co.uk. Diolch i Alison Bentley am roi'r blodau www.bentleyflowers.com

# CARDIFF CASTLE
# CASTELL CAERDYDD

Cardiff Castle
Castle Street
Cardiff
CF10 3RB

Castell Caerdydd
Heol y Castell
Caerdydd
CF10 3RB

Telephone: 029 2087 8105
cardiffcastle@cardiff.gov.uk
www.cardiffcastle.com

Ffôn 029 2087 8105
castellcaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.castell-caerdydd.com